**Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 2 Tachwedd 1999

**Amser:** 10.30am i 12.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Michael German, Cadeirydd | (Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru) |
| Nick Bourne | (Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| Jocelyn Davies | (Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru) |
| Carwyn Jones | (Llafur: Pen-y-bont ar Ogwr) |
| David Rhys Lloyd | (Plaid Cymru: Gorllewin De Cymru) |
| John Marek | (Llafur: Wrecsam) |
| Lynne Neagle | (Llafur: Tor-faen) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru: Canol De Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Dylan Hughes | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Jane Phillips | Clerc y Pwyllgor |
| Gareth Brydon | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**LEG 07-99 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 1999.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

1. Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 2.1 yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghylch cynnig Cymdeithas y Gyfraith y gallent helpu i ddathlu’r ffaith bod y darn cyntaf o ddeddfwriaeth wedi’i basio gan y Cynulliad ac at baragraff 4.1 ynghylch cyhoeddi deddfwriaeth y Cynulliad mewn Crynhoad Cyfreithiol Cymreig. Dywedodd fod cyfarfod i’w gynnal gyda’r Llywydd ddydd Iau 4 Tachwedd 1999 i drafod y ddeubeth, ac y byddai’n adrodd yn ôl i’r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

2.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 4.2 yn y cofnodion ynghylch cyhoeddi deddfwriaeth y Cynulliad. Dywedodd fod Mr Turnbull wedi ysgrifennu at ddau gyhoeddwr i ofyn am eu polisi a’u cynlluniau tebygol ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth y Cynulliad. Dywedodd Mr Turnbull nad oedd wedi cael ateb eto ond y byddai’n adrodd yn ôl i’r Pwyllgor cyn gynted ag y câi.

3. Dywedodd Mr Turnbull fod Ysgol Gyfraith Prifysgol Cymru wedi sefydlu gwefan ar y Rhyngrwyd, gan fwriadu rhoi manylion yr is-ddeddfwriaeth a gynhyrchid gan y Cynulliad yn ogystal â deddfwriaeth a fyddai’n effeithio ar Gymru, cylchlythyrau’r llywodraeth ganolog, achosion cyfreithiol a deddfwriaeth y CE a fyddai’n gymwys i Gymru. Awgrymodd y gallai’r wefan fod ychydig yn rhy gynhwysfawr. Cytunodd â’r Cadeirydd y byddai’n fuddiol trafod y mater yn y cyfarfod gyda’r Llywydd ar 4 Tachwedd. Yn sgil trafodaeth fer, rhoes yr aelodau eu cefnogaeth lawn i egwyddor crynhoad o’r fath.
4. Mewn ymateb i gais gan y Dr Marek, cytunodd yr aelodau yr hoffent gael copïau o’r fersiynau terfynol o’r Offerynnau Statudol y byddai’r Pwyllgor wedi eu hystyried. Gofynnwyd i’r Clerc ymchwilio i sut y gellid gwneud hyn.
5. Dywedodd y Cadeirydd fod Jane Phillips yn ymadael ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau i gymryd swydd newydd yn y Cynulliad. Adrian Green, a oedd yn gweithio yn y Swyddfa Gyflwyno ar hyn o bryd, fyddai’n cymryd ei lle. Diolchodd y Cadeirydd i Jane am ei holl waith caled a dymuno’n dda iddi yn ei swydd newydd.

**Eitem 3: Gorchmynion Cynulliad i’w hystyried gan y Pwyllgor Deddfau**

**LC12: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 1999**

**LC13: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 1999**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.2 Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau'r Cynghorydd Cyfreithiol bod y ddau

Reoliad wedi dod i rym ar 5 Hydref, sef y diwrnod y cawsant eu gwneud. A bwrw bod y Rheoliadau heb eu llofnodi tan rywbryd yn ystod y 5ed yr oedd yna ran o'r diwrnod, yn dechnegol, pan oedd y Rheoliadau yn effeithiol yn ôl-syllol. Cytunodd y pwyllgor y byddai'n rhaid tynnu sylw'r Cynulliad at y diffyg hwn o dan Reol Sefydlog 11.5(iii).

3.3 Cytunwyd defnyddio'r weithdrefn a geir yn Rheol Sefydlog 11.4. Mae honno'n darparu y bydd y Cadeirydd, cyn adrodd i'r Cynulliad y dylai roi sylw arbennig i unrhyw Orchymyn Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth arfaethedig arall, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad a'i gosododd gerbron y Cynulliad fod y Pwyllgor yn bwriadu gwneud adroddiad o'r fath, ac yn rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ac ateb unrhyw gwestiynau y mae wedi'u codi, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Byddai'r Pwyllgor yn penderfynu ar y ffordd ymlaen yng ngoleuni ymateb yr Ysgrifennydd Cynulliad.

3.4 Cafwyd trafodaeth fer ar gytunedd y testun yn y colofnau Cymraeg a Saesneg yn y Nodiadau Esboniadol. Lle mae geiriau'n cael eu mewnosod mewn offeryn uniaith Saesneg, nodwyd y dylid cadw at y fformat dwy-golofn cyn belled ag y bo'n ymarferol, fel bod y testun Saesneg sydd i'w fewnosod yn cael ei ailadrodd yn y ddwy golofn. Er hynny, cytunwyd y byddai yna anawsterau lle byddai'r mewnosodiadau'n arbennig o faith.

3.5 Tynnodd y Dr Marek sylw at y ffont a ddefnyddiwyd yn y Rheoliadau. Nododd yr Aelodau nad dyma'r ffont yr oeddent wedi cytuno ei fod yn cael ei ddefnyddio ym mhob Rheoliad.

3.6 Nododd Ms Davies fod iaith gender-benodol wedi'i defnyddio eto mewn nifer o enghreifftiau yn y Rheoliadau. Gofynnodd y Cadeirydd i Mr Turnbull atgyfnerthu ei neges flaenorol i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol mai iaith sy'n niwtral o safbwynt gender yn unig a ddylai gael ei defnyddio.

**Eitem 4: Unrhyw fusnes arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

1. Gofynnodd y Cadeirydd a gafwyd unrhyw gynnydd ar gynllunio amserlen ar gyfer dod â deddfwriaeth i'r Pwyllgor. Dywedodd y Clerc y byddai'n mynd i gyfarfod â swyddogion y Cynulliad ar 4 Tachwedd er mwyn trafod y mater. Hefyd, pryd bynnag y câi Rheoliadau eu cyflwyno i'r Pwyllgor o dan y weithdrefn frys, cytunodd yr Aelodau y dylai esboniad gael ei ddarparu ar y cyd â'r Rheoliadau i ddweud pam yr oedd y weithdrefn frys wedi'i defnyddio.
1. Câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal ddydd Mawrth 9 Tachwedd 1999 am 10.30am.